TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# AXELOS PRINCE2 AgileÂ® Practitioner

## Yn gryno

Nod PRINCE2 Agile yw diwallu'r galw cynyddol o du'r gymuned reoli. Mae'n dwyn ynghyd ddau ddull gwahanol ar gyfer rheoli prosiectau – rhaeadr ac ystwyth.

Mae Ymarferydd PRINCE2 Agile® yn defnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd ar y lefel Sylfaen ac yn ei chymhwyso at y gweithle, gan ddefnyddio enghreifftiau rheoli o'r byd go iawn. Caiff y cwrs ei anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn amgylchedd prosiect, yn cynnwys staff allweddol sy'n gysylltiedig ag integreiddio gwaith rheoli prosiectau â darparu cynhyrchion.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

## Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un dros 19 oed sy'n byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £29,534 y flwyddyn.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...y rhai y mae'n ofynnol iddynt weithio mewn amgylchedd prosiect, gyda chyfrifoldebau llywodraethu neu mewn rolau sy'n cefnogi prosiectau neu raglenni

**Cynnwys y cwrs**

Bydd y cwrs yn eich helpu i wneud y canlynol:

Deall y cysyniadau sylfaenol sy'n perthyn i ffyrdd ystwyth o weithio
Deall y pwrpas a'r cyd-destun ar gyfer cyfuno PRINCE2 a'r ffordd ystwyth o weithio
Gallu cymhwyso'r meysydd ffocws at brosiectau mewn cyd-destun ystwyth, ynghyd â'u gwerthuso
Gallu datrys ac ystwytho agweddau ar brosiectau mewn cyd-destun ystwyth
Gallu teilwra neu gymhwyso egwyddorion, themâu, prosesau a chynhyrchion rheoli PRINCE2 at brosiectau mewn cyd-destun ystwyth

**Gofynion Mynediad**

I gofrestru ar gyfer y cymhwyster lefel Ymarferydd, bydd angen ichi fod wedi pasio un o'r canlynol:

Sylfaen PRINCE2® (neu uwch)
Sylfaen PRINCE2 Agile®
Cymhwyster Rheoli Prosiectau (PMQ)®
Cysylltai Ardystiedig mewn Rheoli Prosiectau (CAPM)®
Lefelau A®, B®, C® a D® IPMA (Cyfarwyddwr Prosiectau Ardystiedig)

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chyrsiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 2 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Mae'r cwrs yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu goruchwylio ar-lein, ac mae angen dyfais sydd

wedi cysylltu â'r we gyda meicroffon a gwe-gamera.